BookTrust
Getting children reading



# Darllen ar gyfer dyfodol mwy disglair

Strategaeth BookTrust 2025–2030

1 **Rhagair**
3 **Pwy ydym ni**
6 **Ein strategaeth ar gyfer 2025–30**
10 **Ein nodau**
17 **Dyfnhau ein heffaith**
21 **Sut allwch chi helpu**


# Rhagair

**Rydym yn falch iawn o rannu strategaeth newydd BookTrust – *Darllen ar gyfer dyfodol mwy disglair*. Mae'n nodi ein gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer y pum mlynedd nesaf, sef byd lle mae darllen yn rhan o fywyd bob dydd pob plentyn a theulu. Mae hefyd yn adlewyrchu ein pwrpas parhaus: cael plant o aelwydydd incwm isel a chefndiroedd teuluol agored i niwed i ddarllen yn rheolaidd ac o'u gwirfodd fel eu bod yn profi ei fanteision trawsnewidiol, gydol oes.**

**Nid yw darllen ar y cyd erioed wedi bod mor bwysig, nac wedi bod mewn cymaint o berygl. Er bod 95% o deuluoedd yn gwybod bod darllen gyda'u plentyn yn bwysig, mae llawer yn ei chael hi'n anodd cynnwys yr arfer yn eu bywyd bob dydd – a dim ond 42% o blant 0–7 oed sy'n cael stori amser gwely.**

Rydym yn gwybod bod manteision darllen yn drawsnewidiol. Mae darllen gyda phlant o'u geni yn newid bywydau. Mae'n cefnogi datblygiad gwybyddol, bondio, ymlyniad, lles emosiynol, creadigrwydd, parodrwydd ar gyfer ysgol a chysylltiad cymunedol. Rydym wedi gweld – yn enwedig i'r rhai o gefndiroedd teuluol agored i niwed – fod darllen ar y cyd yn helpu plant i feithrin cysylltiadau, goresgyn heriau a dod o hyd i'w lle yn y byd. Mewn sawl ffordd, mae rhannu straeon yn ffactor amddiffynnol yn erbyn yr adfyd y mae rhai plant yn ei brofi, gan eu helpu i deimlo'n ddiogel a theimlo eu bod yn cael eu caru.



**Diana Gerald**
Cyd-Brif Weithredwr
BookTrust



**Annie Crombie**
Cyd-Brif Weithredwr
BookTrust

**Mae'r effaith rydyn ni wedi'i chael hyd yma ond wedi bod yn bosibl diolch i'r amrywiaeth eang o bartneriaid rydyn ni'n gweithio gyda nhw.**

Rydym wedi gwneud cyflawniadau sylweddol dros y pum mlynedd diwethaf, gan fynd ati i ddiweddaru ein rhaglenni mewn ymateb i ddulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a symud ein ffocws tuag at blant mewn mwy o angen. Ond rydym eisiau gwneud mwy.

Dros y pum mlynedd nesaf, byddwn yn parhau i weithredu ar raddfa fawr trwy ein rhwydwaith amrywiol o bartneriaid, gan weithio gyda phob cymuned ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Byddwn hefyd yn ymestyn ein cyrhaeddiad a'n dyfnder, gan ddefnyddio tystiolaeth a mewnwelediad i ysgogi newid mewn ymddygiad, yn enwedig ar gyfer plant o aelwydydd incwm isel a chefndiroedd teuluol agored i niwed.

Gyda'r strategaeth hon, rydym wedi nodi sut rydym eisiau cyrraedd ymhellach a gwneud mwy – ond rydym yn gwybod na allwn ni wneud hynny ar ein pennau ein hunain. Mae ein hymgyrch Hawliau Darllen yn galw ar bob sefydliad ac unigolyn sy'n teimlo bod ganddo rôl i'w chwarae wrth sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle i ddarllen i gefnogi.

Rydym yn edrych ymlaen at barhau i weithio gyda phob un o'n partneriaid i gyflawni'r strategaeth newydd, gyffrous hon.

Rydym yn gwybod bod ein gweledigaeth yn uchelgeisiol, ond rydym hefyd yn gwybod bod modd ei chyflawni, gyda'n gilydd.






# Pwy ydym ni

**Ers dros ganrif, mae BookTrust wedi bod yn hyrwyddo pŵer darllen, gan chwarae rôl flaenllaw wrth lunio diwylliant darllen cenedlaethol.**

**Erbyn hyn, ni yw'r elusen ddarllen fwyaf i blant yn y DU. Bob blwyddyn, rydym yn cyrraedd dros 1.4 miliwn o blant a theuluoedd ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon a chyda phob awdurdod lleol, gan gyflwyno rhaglenni wedi'u llywio gan dystiolaeth sy'n gwneud gwahaniaeth mesuradwy i ymddygiadau darllen plant.**

**Mae ein gwaith wedi'i wreiddio yn y gred bod pob plentyn, yn enwedig y rhai o gefndiroedd incwm isel neu deuluoedd sy'n agored i niwed, yn haeddu'r cyfle i fwynhau darllen a'r holl fanteision gydol oes mae'n ei gynnig. Mae'r gred hon yn sail i'n strategaeth pum mlynedd newydd.**

## Ein **gweledigaeth**

yw byd lle mae darllen yn rhan o fywyd bob dydd pob plentyn a theulu.

## Ein **diben**

yw sicrhau bod plant o gefndiroedd incwm isel a theuluoedd sy'n agored i niwed yn darllen yn rheolaidd ac o'u gwirfodd fel eu bod yn profi ei fanteision trawsnewidiol, gydol oes.

Am ragor am bwy ydym ni, gan gynnwys ein Noddwr a'n Llywydd, ein llywodraethiant, cyllidwyr a'n cefnogwyr **cliciwch yma**

# Pam mae ein gwaith yn bwysig

Mae darllen yn sicrhau manteision dwfn ac eang a all gael effaith gydol oes ar fywydau plant. Ar adeg pan mae llawer o deuluoedd yn wynebu heriau, a'r bylchau mewn canlyniadau'n cynyddu rhwng plant o deuluoedd incwm isel a'u cyfoedion mwy cyfoethog, mae darllen yn ffordd o wneud gwahaniaeth cadarnhaol.

Mae meithrin mwynhad plant o ddarllen, o'r eiliadau cynharaf o'u plentyndod, yn rhan hanfodol o roi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant. Mae darllen yn meithrin ac yn cynnal perthnasoedd a chysylltiadau dynol. Mae'n cefnogi datblygiad yn ystod plentyndod, gan helpu plant i feithrin eu dychymyg a dangos mwy o empathi. Mae gwneud darllen yn rhan o fywyd bob dydd y teulu nid yn unig yn cynnig cyfle i'r rhai sy'n wynebu heriau mwy, mae'n ein helpu ni i ddeall ein gilydd a dychmygu dyfodol cadarnhaol.

## Mae darllen yn helpu plant i wneud y canlynol...

### Goresgyn anghydraddoldebau cyn iddyn nhw ddyfnhau

- Gallan nhw brofi mwy o symudedd addysgol a chymdeithasol
- Mae'r rhai sy'n tyfu i fyny mewn tlodi yn llai tebygol o aros mewn tlodi fel oedolion
- Trwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol, maen nhw'n fwy tebygol o oresgyn y rhwystrau sy'n cael eu hachosi gan anfantais

### Cyflawni cerrig milltir datblygu cynnar a gwneud yn well yn yr ysgol

- Mae datblygiad yr ymennydd, sylw a gallu gwybyddol i gyd yn gwella
- Maen nhw'n fwy parod ar gyfer ysgol ac yn gwneud mwy o gynnydd ar draws y cwricwlwm
- Mae ganddyn nhw well sgiliau datblygu iaith a lleferydd a llythrennedd

### Bondio â'u gofalwyr a phrofi gwell lles meddyliol

- Mae teimladau o ddiogelwch a bondiau â rhieni/gofalwyr yn cynyddu
- Maen nhw'n fwy tebygol o brofi gwell lles meddyliol, hunan-barch a gwell sgiliau cymdeithasol-emosiynol
- Maen nhw'n fwy tebygol o fod ag arferion iach

### Datblygu eu dychymyg, eu hempathi a'u creadigrwydd

- Maen nhw'n meithrin empathi trwy ddarllen ffuglen
- Maen nhw'n datblygu sgiliau datrys problemau creadigol
- Maen nhw'n datblygu eu creadigrwydd a'u dychymyg



**Rydym yn gwybod bod cynnwys darllen mewn bywyd bob dydd yn heriol:**




Mae **95%** **o rieni a gofalwyr yn gwybod bod darllen gyda'u plentyn yn bwysig,** ond mae llawer yn ei chael hi'n anodd cynnwys yr arfer ym mywyd bob dydd y teulu.[1]

Mae **28%** **o rieni a gofalwyr yn teimlo bod darllen gyda'u plant ifanc yn heriol.**[1]

Mae **42%** **o blant 0–7 oed yn cael stori amser gwely.**[1]

Mae **33%** **o blant 7 oed yn dweud eu bod wrth eu boddau yn darllen,** gan ostwng i **25%** yn 11 oed.[2]

**1 Arolwg Teulu BookTrust 2022** (Arolwg ar-lein o 2,148 o rieni/gofalwyr ar incwm isel gyda phlant 0-7 oed yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon)

**2 Arolwg Teulu BookTrust 2021** (Arolwg ar-lein o 7,871 o rieni/gofalwyr a phlant am blant 0-17 oed yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon)

# Ein strategaeth ar gyfer 2025-30

**Rydym yn falch o'r cynnydd rydym wedi'i wneud dros y pum mlynedd diwethaf, yn ail-lunio ein rhaglenni, yn dyfnhau partneriaethau a gwaith yn y seiliedig ar le, ac yn cyrraedd mwy o blant a theuluoedd sydd angen cymorth fwyaf. Nawr, rydym yn adeiladu ar y sylfaen hon gyda ffocws ac uchelgais o'r newydd. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarllen ar y cyd yn gynnar ac i gefnogi plant o gefndiroedd teuluoedd incwm isel neu agored i niwed.**




**Trwy ymwreiddio'r hyn sy'n gweithio, cynyddu ein cyrhaeddiad a datblygu'r ffordd rydym yn gweithredu, rydym yn gweithio i sicrhau bod darllen yn dod yn rhan o fywyd bob dydd i bob plentyn – yn enwedig y rhai sydd â'r angen mwyaf.**

**Mae strategaeth 2025-30 wedi'i chynllunio i adeiladu ar y cynnydd rydym wedi'i wneud dros y pum mlynedd diwethaf a'i atgyfnerthu.**

**Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn:**

- **Dyfnhau ein heffaith** trwy ymwreiddio dulliau effeithiol sy'n cael eu harwain gan dystiolaeth ym mhob un o'n rhaglenni
- **Ehangu ein cyrhaeddiad** i gefnogi hyd yn oed mwy o blant, yn enwedig y rhai o gefndiroedd teuluol agored i niwed
- **Buddsoddi mewn adeiladu dyfodol cynaliadwy** ar gyfer BookTrust, gan gryfhau ein dulliau o gynhyrchu incwm, codi ein proffil allanol a datblygu'r ffordd rydym yn gweithio fel bod ein pobl, ein prosesau a'n penderfyniadau yn barod i gyflawni ein huchelgais

## Ein nodau effaith

Nod Effaith **Un**

**Mae plant o gefndiroedd teuluol agored i niwed yn adeiladu sylfeini cadarn ar gyfer bywyd trwy ddarllen.**

Nod Effaith **Dau**

**Mae darllen gyda'i gilydd yn rhan o fywyd teuluoedd blynyddoedd cynnar incwm isel.**

Nod Effaith **Tri**

**Mae darllen yn rhan arferol o fywyd bob dydd pob plentyn, gyda ffocws ar y rhai sydd angen cymorth fwyaf.**

## Pwy fyddwn ni'n ei gefnogi

Byddwn yn parhau i weithio gyda phob cymuned ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon i gefnogi plant a theuluoedd sydd â'r angen mwyaf. Byddwn yn gweithio trwy rwydwaith amrywiol o bartneriaid cyflawni i ddod o hyd i'r ffyrdd gorau o gyrraedd plant a'u teuluoedd. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau cyffredinol fel llyfrgelloedd, ysgolion a lleoliadau gofal plant, yn ogystal â phartneriaid sy'n cefnogi teuluoedd incwm isel, plant ag anghenion ychwanegol neu blant o gefndiroedd teuluol agored i niwed.

Ym mhob achos, byddwn yn parhau i ddylunio ein rhaglenni i ddiwallu anghenion plant a theuluoedd sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf i ddarllen ac sydd angen cymorth fwyaf.

> **Ein dull sy'n seiliedig ar le: byddwn yn gweithio trwy rwydwaith amrywiol o bartneriaid cyflawni i ddod o hyd i'r ffyrdd gorau o gyrraedd plant a'u teuluoedd ym mhob cymuned.**

**Mae hyn yn golygu:**

**Ar gyfer Nod Effaith Un** – Byddwn yn canolbwyntio ar blant o gefndiroedd teuluol agored i niwed, gan ehangu ein cynulleidfaoedd blaenoriaeth wrth i ni gyrraedd ymhellach.


**Ar gyfer Nod Effaith Dau** – Ein cynulleidfa flaenoriaeth ar gyfer Dechrau Da yw teuluoedd incwm isel. Ein nod yw cyrraedd pob babi newydd a'i deulu gyda'n rhaglen gyffredinol, Dechrau Da Babi.

**Ar gyfer Nod Effaith Tri** – Byddwn yn gweithio mewn ffordd gynhwysol trwy ysgolion cynradd ac uwchradd, ac yn dylunio ein rhaglenni i gyrraedd cynulleidfaoedd amrywiol ac i gefnogi'r rhai sydd angen ein help fwyaf.



Mae bron i
**611,000**
**o fabanod yn cael eu geni**
yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon bob blwyddyn
(Ffynhonnell: SYG, NISRA 2023)

Rydym yn diffinio teuluoedd incwm isel fel aelwydydd mewn tlodi cymharol, **h.y. incwm cartref sydd 60% yn is na'r canolrif cenedlaethol**




Mae
**2.2m**
**o blant 0–4 oed yn byw mewn aelwydydd incwm isel yn y DU**
Mae hyn yn 36% o'r holl blant 0–4 oed (Ffynhonnell: DWP 2024)

Rydym yn diffinio plant o gefndiroedd teuluol agored i niwed fel: **plant sy'n derbyn gofal, plant sy'n derbyn gofal gan berthynas, plant sydd wedi'u mabwysiadu, plant sy'n cael cymorth cynnar a phlant sydd â gweithiwr cymdeithasol. Mae:**

**83,600**
**o blant yn derbyn gofal yn Lloegr, ag y mae 14,600 ohonyn nhw yn 0–4 oed**
Mae hyn yn llai nag 1% o'r holl blant
(Ffynhonnell: Adran Addysg 2023)

**121,000**
**o blant yn derbyn gofal gan berthynas yng Nghymru a Lloegr, y mae 31,300 ohonyn nhw'n 0–7 oed**
Mae hyn yn cyfateb i tua 1% o'r holl blant
(Ffynhonnell: SYG 2023)

**3,000**
**o blant yn cael eu mabwysiadu bob blwyddyn, y mae 2,400 ohonyn nhw'n 0–4 oed** (Ffynhonnell: Adran Addysg 2023)

**399,500**
**o blant wedi'u dosbarthu fel plant mewn angen** (gan gynnwys y rhai ar gynlluniau plant mewn angen, y rhai ar gynlluniau amddiffyn plant, plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol, y rhai sy'n gadael gofal a phlant anabl) Mae hyn yn cyfateb i tua 3% o'r holl blant
(Ffynhonnell: Adran Addysg 2024)

# Nod
# Effaith Un

**Mae plant o gefndiroedd teuluol agored i niwed yn adeiladu sylfeini cadarn ar gyfer bywyd trwy ddarllen.**

Ymgysylltu a chefnogi partneriaid cyflawni ac ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant o gefndiroedd teuluol agored i niwed

Dylunio a chyflwyno cynigion effeithiol i blant o gefndiroedd teuluol agored i niwed

Codi proffil manteision darllen i blant o gefndiroedd teuluol agored i niwed

## Effaith a dyfnder

### Ein man cychwyn

- Mae **cymorth ar-lein BookTrust** yn esbonio manteision darllen i blant o gefndiroedd teuluol agored i niwed.

- Dywedodd **96%** o blant sy'n derbyn ein rhaglen Clwb Blwch Llythyrau eu bod yn ei hoffi neu'n ei charu.
- Dywedodd **73%** eu bod yn darllen mwy, naill ai'n annibynnol neu gydag oedolyn.

### Erbyn diwedd blwyddyn pump

- **Byddwn yn codi proffil y rôl y gall darllen ei chwarae wrth gryfhau perthnasoedd i blant o gefndiroedd teuluol agored i niwed** ac yn adeiladu rhwydwaith cryf o eiriolwyr, arbenigwyr ac ymarferwyr sy'n helpu'r plant hyn i fwynhau darllen.

- **Byddwn yn sicrhau bod ein rhaglenni newydd ac estynedig yn parhau i gael adborth cadarnhaol** gan blant a theuluoedd, ac yn eu gweld yn darllen yn amlach.

## Y plant a'r teuluoedd rydym yn eu cyrraedd

### Ein man cychwyn

- **Cyrraedd 11,000 o blant** a theuluoedd o gefndiroedd teuluol agored i niwed.
- Gweithio gyda thros **500 o bartneriaid** a chyd-ddylunio ein cymorth gydag ymarferwyr a theuluoedd.

### Erbyn diwedd blwyddyn pump

- **Byddwn yn cyrraedd nifer cynyddol o blant o gefndiroedd teuluol agored i niwed** bob blwyddyn fel ein bod yn cyrraedd tua 60,000 y flwyddyn erbyn diwedd cyfnod y strategaeth.

## Amcanion allweddol

**Erbyn 2030, byddwn yn cyrraedd 60,000 o blant o gefndiroedd teuluol agored i niwed gyda chymorth effeithiol i wneud darllen yn rhan o'u bywyd teuluol.**



# Nod
# Effaith Dau

**Mae darllen ar y cyd yn rhan o fywyd teuluoedd blynyddoedd cynnar incwm isel.**

Ymgysylltu a chefnogi partneriaid cyflawni blynyddoedd cynnar

Dylunio a darparu cynigion effeithiol ar gyfer plant a theuluoedd blynyddoedd cynnar

Codi ein proffil a defnyddio ein dylanwad yn y sector blynyddoedd cynnar

## Effaith a dyfnder

### Ein man cychwyn

- **Roedd 85% o bartneriaid yn teimlo bod adnoddau BookTrust wedi eu helpu i ennyn diddordeb plant** a theuluoedd o aelwydydd incwm isel mewn darllen.
- Roedd **95%** o rieni/gofalwyr yn mwynhau defnyddio rhaglenni Dechrau Da i Blant Bach a Dechrau Da Oed Cyn Ysgol.
- Roedd **61%** o deuluoedd wedi ceisio sefydlu arferion darllen gartref oherwydd y rhaglen.
- Dywedodd **73%** eu bod yn credu'n gryfach ym manteision darllen i'w plentyn ers derbyn y rhaglen.

### Erbyn diwedd blwyddyn pump

- **Byddwn yn gwella'r gefnogaeth a roddir** i'n partneriaid cyflawni blynyddoedd cynnar ymhellach i'w helpu i sicrhau bod mwy o blant yn darllen.
- **Bydd cyfran uwch o'r teuluoedd rydym yn gweithio gyda nhw yn clywed gan bartneriaid cyflawni** am sut i rannu straeon a pham mae'n bwysig.
- **Bydd ein rhaglenni Dechrau Da i Blant Bach a Dechrau Da Oed Cyn Ysgol** yn parhau i gael plant i ddarllen.
- **Bydd cyfran uwch o'r teuluoedd rydym yn gweithio gyda nhw yn sefydlu arferion darllen** ac yn credu'n gryfach ym manteision darllen i blant.

## Y plant a'r teuluoedd rydym yn eu cyrraedd

### Ein man cychwyn

- **Rydym yn cyrraedd dros 400,000 o blant** gyda'n rhaglenni Dechrau Da i Blant Bach a Dechrau Da Oed Cyn Ysgol.
- Mae **72%** o'r plant sy'n derbyn rhaglenni Dechrau Da yn dod o deuluoedd incwm isel.

### Erbyn diwedd blwyddyn pump

- **Byddwn yn cynyddu cyrhaeddiad ein rhaglenni Dechrau Da i Blant Bach a Dechrau Da Oed Cyn Ysgol** i 450,000 o blant y flwyddyn, y bydd o leiaf 80% ohonyn nhw'n dod o deuluoedd incwm isel.

## Amcanion allweddol

**Dros gyfnod y strategaeth hon, byddwn wedi cyrraedd cyfanswm o 2.15 miliwn o blant, gan gynnwys o leiaf 1.7 miliwn o deuluoedd incwm isel.**



# Nod
# Effaith Tri

**Mae darllen yn rhan arferol o fywyd bob dydd pob plentyn, gyda ffocws ar y rhai sydd angen cymorth fwyaf.**

Ymgysylltu ag ysgolion ac athrawon a'u cefnogi

Dylunio a chyflwyno cynigion effeithiol i blant mewn ysgolion cynradd

Dylunio a chyflwyno cynigion effeithiol i blant mewn ysgolion uwchradd

## Effaith a dyfnder

### Ein man cychwyn

- **Mae athrawon yn ymgysylltu â'n hadnoddau,** yn enwedig ein hadolygiadau a'n hargymhellion.

**Yn 2024–25:**

- Dywedodd **98%** o ysgolion uwchradd y bydden nhw'n argymell ein rhaglen Bookbuzz i eraill.
- Dywedodd **98%** fod Bookbuzz yn eu helpu i annog darllen er pleser yn eu hysgol.

### Erbyn diwedd blwyddyn pump

- **Byddwn yn parhau i weld athrawon yn cefnogi ac yn ymgysylltu'n frwdfrydig** â'n rhaglenni ysgolion.

## Y plant a'r teuluoedd rydym yn eu cyrraedd

### Ein man cychwyn

**Yn 2024-25:**

- Cyrhaeddwyd dros **330,000** o blant oedran ysgol gyda gweithgarwch rhaglen uniongyrchol (a llawer mwy trwy ennyn diddordeb athrawon gyda'n cynnwys).

### Erbyn diwedd blwyddyn pump

- **Byddwn yn cefnogi mwy o blant mewn ysgolion cynradd ac uwchradd,** a mwy o ysgolion ac athrawon, gyda'n rhaglenni darllen.

## Amcanion allweddol

**Erbyn 2030, byddwn yn cefnogi mwy o athrawon mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ac yn cyrraedd mwy o blant gyda chymorth sy'n eu helpu i ddarllen yn rheolaidd ac o'u gwirfodd.**






# Dyfnhau ein heffaith

**Mae ein gwaith yn cael ei lywio gan dystiolaeth ac yn cael ei ategu gan ein theori newid, sy'n seiliedig ar ymchwil helaeth a degawdau o waith gyda theuluoedd a phartneriaid.**

**Dros y pum mlynedd diwethaf, rydym wedi dysgu mwy am nodweddion ein rhaglenni sy'n creu effaith ac wedi nodi'r rhai mwyaf addawol o'r rhain i'w datblygu ymhellach.**

## Gwneud mwy o'r hyn rydym yn gwybod sy'n gweithio

Rydym wedi nodi pedwar cynhwysyn allweddol sydd eisoes yn cyfrannu at effaith gref. Byddwn yn parhau i gynnwys y rhain yn y gweithgareddau ym mhob un o'n rhaglenni.

1. **Cynyddu mynediad at lyfrau sydd â'r nodweddion rydym yn gwybod eu bod yn cynnig y manteision mwyaf**
Rydym yn gwybod pa mor bwysig yw'r llyfr 'cywir', a'r nodweddion y mae teuluoedd a phlant yn eu mwynhau ac y maen nhw'n cael y manteision mwyaf ohonyn nhw, fel eu bod yn cael eu hysbrydoli i ddarllen a pharhau i ddarllen.

2. **Cyfathrebu ein tystiolaeth a'n mewnwelediad i bartneriaid cyflawni**
Mae rhannu arbenigedd, tystiolaeth a mewnwelediadau yn ein helpu i ennyn hyder partneriaid bod y gwaith rydym yn ei wneud yn cefnogi eu nodau a'u bod yn defnyddio eu hadnoddau yn ddoeth wrth weithio gyda ni.

3. **Hwyluso cysylltiadau rhwng ein partneriaid**
Mae helpu i greu cysylltiadau ar draws ein cymuned o randdeiliaid eang ac amrywiol yn golygu bod partneriaid yn rhan o genhadaeth ehangach gyda chyfleoedd i ddysgu gyda'i gilydd.

4. **Ymwreiddio'n lleol**
Mae ymwreiddio'n lleol yn golygu ein bod yn gallu addasu a dod o hyd i gyfleoedd i gyrraedd cymunedau lle gallwn ni gael yr effaith fwyaf a gwella'r effaith y mae ein partneriaid yn ei chael.

**Cynyddu'r effaith y mae ein cefnogaeth yn ei chael i bartneriaid**

Dros y pum mlynedd nesaf, byddwn yn ymgysylltu'n fwy â'n partneriaid cyflawni a'n cwsmeriaid ac yn gwella'r ffyrdd rydym yn eu cefnogi. Byddwn yn canolbwyntio ar dri maes penodol lle mae ein tystiolaeth yn dangos arwyddion addawol bod mwyfwy o effaith yn cael ei gweld:

1. **Helpu partneriaid i ddeall yr egwyddorion a'r dulliau sy'n sail i ddyluniad ein rhaglenni**
   Rydym am i bawb sy'n gweithio gyda theuluoedd deimlo'n glir am y pethau y gallan nhw eu cynnwys yn eu hymarfer. Dyma sut rydym yn sicrhau bod ein gwaith wedi'i lywio gan dystiolaeth ac yn seiliedig ar le.
2. **Diwallu anghenion penodol plant a theuluoedd**
   Trwy roi bwydlen o adnoddau i bartneriaid gefnogi darllen ar y cyd, byddan nhw'n gallu dewis y dull gorau o ddiwallu anghenion penodol y teuluoedd maen nhw'n gweithio gyda nhw.
3. **Creu bwrlwm**
   Trwy greu proffil a chyffro ynghylch darllen a gweithgaredd BookTrust, gallwn ni helpu partneriaid i deimlo hyd yn oed yn fwy ysbrydoledig yn eu gwaith.

**Cynyddu'r effaith y mae ein cefnogaeth yn ei chael i deuluoedd**

Dros y pum mlynedd nesaf, byddwn yn canolbwyntio ar ddatblygu tri dull addawol o gynyddu'r effaith rydym yn ei chael gyda theuluoedd:

1. **Manteisio i'r eithaf ar bob cyfle**
   Gwneud y gorau o sawl moment i atgyfnerthu arfer darllen, ar bob pwynt ar daith plentyn.
2. **Dangos yn ogystal ag adrodd**
   Trwy gynnwys modelu gan ymarferwyr ym mhob un o'n rhaglenni, gallwn ni ddangos hud darllen yn uchel i deuluoedd yn ogystal â dweud wrthyn nhw pam ei fod yn bwysig.
3. **Gwneud darllen yn berthnasol**
   Pan fo teuluoedd yn gweld darllen fel rhywbeth sy'n berthnasol iddyn nhw, maen nhw'n teimlo ei fod ar eu cyfer nhw ac y gall fod yn rhan o'u bywydau bob dydd.

# Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

**Rydym wedi cynnwys ffyrdd cynhwysol o weithio yn ein dull gweithredu, ac rydym wedi ymrwymo i wella'r rhain ymhellach dros y cyfnod nesaf. Mae darllen yn dod â chymunedau ynghyd o amgylch straeon a rennir ac yn ein helpu ni i ddeall safbwyntiau pobl eraill – ni allai fod yn fwy hanfodol ar adeg pan fo toriadau o fewn cymunedau i'w gweld yn glir.**

**Dros y pum mlynedd nesaf, byddwn yn parhau i gyd-greu ein rhaglenni gyda'r grwpiau amrywiol o blant a theuluoedd rydym yn eu cefnogi, gan wella a herio ein dulliau cyd-ddylunio, gweithio gydag ystod eang o bartneriaid, a denu a chadw corff amrywiol o staff.**

**Yn benodol, byddwn yn:**

- **Dyfnhau** ein dealltwriaeth o anghenion teuluol penodol fel y gallwn ni ddylunio cymorth cynhwysol, effeithiol.
- **Cryfhau** ein dull cyflawni sy'n seiliedig ar le fel y gallwn ni ymateb i realiti cymunedau unigol.
- **Gwella** ein dealltwriaeth o'r ymarferwyr amrywiol rydym yn gweithio gyda nhw fel y gallwn ni ddylunio cymorth hyblyg a pherthnasol i'w helpu i gyflawni.
- **Parhau** i gefnogi pobl greadigol o liw trwy BookTrust Represents – a chefnogi athrawon ac ymarferwyr i weithio gyda llyfrau plant cynrychioliadol.

> **Byddwn yn sicrhau ein bod ni'n cymryd agwedd gynhwysol, gan feddwl yn benodol am sut rydym yn cefnogi'r rhai sydd â llai o gyfleoedd ac sy'n wynebu mwy o rwystrau i elwa ar effaith drawsnewidiol darllen a rhannu straeon.**

## Ein theori gryno o newid

Mae **BookTrust** yn dylunio rhaglenni a chymorth sy'n cael eu harwain gan dystiolaeth i annog darllen er mwynhad

Mae **partneriaid** BookTrust yn ennyn diddordeb teuluoedd mewn darllen

Mae **teuluoedd** yn manteisio ar ein cynigion ar sawl adeg trwy gydol y blynyddoedd cynnar a'r ysgol

Mae darllen yn dod yn rhan **arferol** o fywyd bob dydd

Mae teuluoedd yn profi **manteision** uniongyrchol a hirdymor darllen

## Beth sy'n gwneud BookTrust yn arbennig?

Mae ein gwaith yn cael ei gefnogi gan sawl ffactor allweddol

- **Rydym yn mynd ati i newid ymddygiad darllen trwy gyfathrebu digidol a dulliau partneriaeth sy'n mynd y tu hwnt i'r llyfr.**
- **Rydym yn dylunio gyda phlant, teuluoedd a phartneriaid, gan sicrhau eu bod nhw wrth wraidd yr holl waith arloesi, dylunio a datblygu.**
- **Rydym yn gweithio ar raddfa fawr gyda phartneriaid i gyrraedd pob cornel o Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.**
- **Rydym wrth wraidd y sector llyfrau plant ac yn gweithio'n agos gydag awduron, darlunwyr a chyhoeddwyr.**
- **Rydym yn cael ein llywio gan dystiolaeth a dysgu, ac rydym bob amser yn ceisio cynyddu'r effaith rydym yn ei chael.**




# Sut allwch chi helpu

**Gall darllen newid bywydau, ond allwn ni ddim sicrhau'r effaith hon i blant a theuluoedd ar ein pennau ein hunain. Mae yna nifer o ffyrdd y gallwch chi ein helpu i gyrraedd y rhai a all elwa fwyaf ar bŵer darllen ar y cyd.**

### Dyma sut y gallwch chi gefnogi gwaith BookTrust

- **Gwneud rhodd**
  Ni waeth pa mor fawr neu fach, gall eich rhoddion wneud gwahaniaeth gwirioneddol wrth helpu pob plentyn i elwa ar ddarllen.
- **Codi arian i ni**
  Mae yna lawer o ffyrdd y gallwch chi helpu i godi arian ar gyfer BookTrust, o ddigwyddiadau ysgol i rasys hwyl a boreau coffi, y bydd pob un ohonyn nhw'n helpu i gael plant i ddarllen.
- **Partneru gyda ni**
  Mae ein partneriaid yn allweddol i'r effaith rydym yn ei chael. P'un a allwch chi ein helpu ni i gyrraedd a chefnogi plant, neu ein helpu ni i gael mwy o effaith, byddem wrth ein boddau yn gweithio gyda chi.
- **Lledaenu'r gair**
  Rydym bob amser yn eirioli dros bŵer darllen ar y cyd. Os gallwch chi helpu i ledaenu ein neges, byddem wrth ein boddau yn clywed mwy.



**Ewch i booktrust.org.uk i ddarganfod mwy neu cysylltwch â queries@booktrust.org.uk.**

©2025BookTrust. Rhif elusen 313343

BookTrust
Getting children reading

Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol @BookTrust
**booktrust.org.uk**

Supported using public funding by
ARTS COUNCIL ENGLAND